



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 22.02.2016

Eisteddfod Ysgol Gyfun Bro Myrddin 2016

Ar ddydd Gwener Chwefror y 12fed 2016, cynhaliwyd eisteddfod flynyddol yr ysgol. Eto eleni cafwyd diwrnod llawn hwyl a chystadlu brwd. Y grwpiau offerynnol wnaeth ddechrau'r steddod gyda grŵp llys Llwydiarth yn dod yn gyntaf, Peniarth yn ail, yn drydydd llys Hergest ac yn bedwerydd llys Hengwrt. Ail gystadleuaeth y dydd oedd unawd lleisiol BI 10-13 gyda Hannah Richards o lys Llwydiarth yn cipio'r wobr gyntaf, yn



ail roedd Marek Owen, llys Peniarth, yn drydydd Phoebe Morgan o lys Hengwrt ac yn bedwerydd Lowri Richardson o lys Hergest. Y gystadleuaeth nesaf oedd meimio i gerddoriaeth fe enillwyd y gystadleuaeth gan lys Peniarth, ac yn ail lys Hengwrt, yn drydydd llys Llwydiarth ac yn bedwerydd llys Hergest. Yna cawsom y cyfle i weld grwpiau dawnsio disgo anhygoel yr ysgol ac yn ennill y gystadleuaeth oedd llys Hengwrt, yn ail llys Peniarth, yn drydydd llys Llwydiarth ac yn bedwerydd llys Hergest. Yna amser i

glywed y grwpiau lleisiol yn gyntaf grŵp Hengwrt, Llwydiarth yn ail, Hergest yn drydydd a Peniarth yn bedwerydd. Yna cafwyd cystadleuaeth newydd y flwyddyn hon sef stori a sain. Bu'r gynulleidfa yn chwerthin yn eu dyblau ac yn cipio'r wobr gyntaf oedd llys Peniarth yn ail llys Llwydiarth, yn drydydd oedd llys Hengwrt ac yn bedwerydd oedd llys Hergest. Yna gwelwyd y pedwar llys yn perfformio dawns werin agored, y perfformiad gorau oedd llys Peniarth yna llys Llwydiarth, llys Hengwrt a Hergest. Nesaf, cafwyd yr unawd lleisiol iau a pherfformiadau hyfryg gan bob llys. Alaw Evans o lys Llwydiarth oedd yn fuddugol gyda Elin Fflur o lys Hergest yn ail, Elain Owen o Peniarth yn drydydd a Cerys Thomas o lys Hengwrt yn bedwerydd. Mae'r drydedd wobr yn mynd i Elain Owen o Peniarth ac yn bedwerydd Cerys Thomas o lys Hengwrt yn bedwerydd. Yna cawsom berfformiadau doniol a digri yng nghystadleuaeth y sgets. Llys Peniarth oedd y llys buddugol yn cael ei dilyn gan Hengwrt, Llwydiarth a Hergest. oedd llys Peniarth, yn ail llys Hengwrt, yn drydydd llys Llwydiarth ac yn. Aethom ymlaen wedyn i wyllo grwpiau dawnsio disgo BI10-13. Yn ennill y gystadleuaeth roedd Hengwrt, yn ail Llwydiarth, yn drydydd Peniarth ac yn bedwerydd Hergest. Aethom ymlaen wedyn i'r gystadleuaeth olaf cyn y seremoni coroni a chadeirio sef y grwpiau pop gyda Llwydiarth yn dod yn gyntaf, yn ail Hergest, yn drydydd Peniarth, ac yn bedwerydd Hengwrt.



Prif ddigwyddiad y prynhawn oedd seremoni'r coroni a chadeirio. Enillydd y goron Gymraeg oedd Hanna Medi Davies o lys Peniarth ac enillydd y goron Saesneg oedd Gwenllian Page o lys Peniarth. Enillwyd y gadair Gymraeg gan Greta Llŷr o lys Hergest ac enillwyd y gadair Saesneg gan Sophie McLaughlin o lys Llwydiarth.



Cyn gorffen y dydd fe gawsom glywed corau'r llysoedd yn canu Gwinllan a Roddwyd. Enillwyr cystadleuaeth y côr eleni oedd llys Hengwrt. Enillwyd tîws y dawnsio gwerin gan lys Peniarth gyda tîws cystadlaethau'r llwyfan gan lys Llwydiarth a thîws y gwaith cartref gan lys Llwydiarth.

Ond enillwyr y steddfod eleni yn y drefn ganlynol oedd Llwydiarth gyda 839 o bwyntiau, Hengwrt gyda 652 o bwyntiau, Hergest gyda 540 o bwyntiau ac yn olaf Peniarth gyda 528 o bwyntiau.

Carem ddiolch yn ddiffuant i'r tri beirniad sef Ms Helen Gibbon, Mrs Janice Bergiers a Mrs Enfys Davies am gwaith a hefyd i'r capteiniaid llys a phawb a fu'n glwm ar ymarferion.

Adroddiad gan Lowri Powell, 8-1 Llys Llwydiarth

Llwyddiant gyda gwobrau Chwaraeon Tref Caerfyrddin

Ar nos Wener y 29ain o Ionawr yng nghlwb y Cwins, Caerfyrddin cynhaliwyd noson wobrwyo flynyddol chwaraeon Tref Caerfyrddin. Llongyfarchiadau mawr i'r unigolion o'r ysgol a gafodd eu hanrhydeddu ar y noson ac i'r fîm sgïo.



Gwobrwywyd Daisy Thompson o flwyddyn 7 fel y ferch iau o dan 13 am ei llwyddiant ym maes athletau; Iwan Glyn o flwyddyn 8 fel y bachgen iau o dan 13 eto am lwyddiant ym maes athletau, Huw Butterworth o flwyddyn 11 fel y gwryw canolradd o dan 16 am ei lwyddiant yn maes canwïo a sgïo; Aiden Jones o flwyddyn 12 fel y gwryw ieuenctid o dan 19 oed am ei lwyddiant yn sgïo a thîm sgïo Ysgol Bro Myrddin yn ail yn y categori fîm iau. Brاف nodi bod cyn-ddisgybl o'r ysgol sef Scott Davies wedi cael ei wobrwyo fel y gwryw hyn am ei lwyddiant ym maes seiclo.

Radio Cymru

Cafodd criw o flwyddyn 12 sef Osian Mcavoy, Cai Evans, Owen Rhys, Greta Llŷr, Sioned Beynon, Elen Fflur Davies gyfle gwych yn ddiweddar i ymweld â Stiwdio Radio Cymru yng Nghaerfyrddin i gyfrannu ar Raglen Tommo.



Cawsom y profiad anhygoel o ddewis a chyflwyno eu hoff ganeuon. Byddant yn cael eu clywed dros y misoedd nesaf. Hoffai'r wyth disgybl Iwcus ddiolch i Tommo a Terwyn am y croeso.

Taith yr Adran Gerdd i weld Billy Elliot, Ionawr 21ain 2016

Ar fore'r 21ain o Ionawr, cychwynnodd taith gyda thri llond bws o ddisgyblion Bro Myrddin i Lundain. Er yr amser cynnar, roedd y cyffro yn amlwg wrth i ni ddechrau'r daith. Mae'r sioe Billy Elliot wedi bod yn y West End am ddeng mlynedd a bydd y perfformiad olaf ar y 9fed o Ebrill, gyda thaith genedlaethol o amgylch y Deyrnas Unedig ac Iwerddon yn dilyn y dyddiad hwnnw. Agorodd y sioe yn 2005 yn y Victoria Palace Theatre ac fe gafodd ei enwebu am naw gwobr Laurence Olivier, gan ennill pedai gwobr am 'Best New Musical' (yn dilyn agoriad y sioe). Fe wnaeth llwyddiant y sioe hefyd arwain at gynrychiadau yn Awstralia, ar Broadway ac mewn nifer o lefydd eraill lle wnaeth y sioe ennill nifer o wobrau.

Mae'r sioe yn seiliedig ar y ffilm Billy Elliot a gafodd ei greu yn 2000 gyda'r gerddoriaeth gan Elton John a'r lyrics gan Lee Hall. Mae'n dilyn bachgen o'r enw Billy Elliot sydd â dawn naturiol am ddawnsio, felly mae'n penderfynu mynychu dosbarth dawnio yn hytrach na dosbarth paffio. Mae'r sioe hefyd yn trafod gofidiau mewn teulu a chymuned oherwydd streic mwyngloddwyr y Deyrnas Unedig yn Swydd Durham, Gogledd-Ddwyrain Lloegr. Wrth i'r sioe fynd rhagddi, mae sgiliau dawnio Billy yn cryfhau, ac o ganlyniad mae'n mynd i glyweliad am le yn yr Ysgol Bale Frenhinol, ac mae'n derbyn lle yno.



Roedd pob rhan o'r sioe yn anhygoel; y canu, yr actio ac yn enwedig y dawnio. Roedd yn brofiad arbennig i weld perfformwyr mor ifanc a dawnus ar lwyfan y theatr 'Victoria Palace'. Roedd yr holl gast yn arbennig, ond fe wnaeth sawl person greu argraff fawr gan gynnwys Thomas Hazelby sef *Billy*. Roedd hi'n braf gweld bachgen mor ifanc yn dawnio gyda chymaint o angerdd ac yn canu mor swynol. Rhaid hefyd sôn am y bachgen a wnaeth chwarae rhan *Michael* sef Bradley Mayfield; roedd yn cynnig llawer o hiwmor i'r sioe! Seren arall oedd Gillian Elisa oedd yn chwarae rhan *mam-gu Billy*. Roeddem yn ffodus iawn i gael y cyfle i gwrdd â hi ar ôl y sioe pan ddaeth hi ar y tri bws. Fe gawsom y cyfle i ofyn ychydig o gwestiynau iddi am y sioe a sut brofiad oedd hi i fod yn rhan o un o sioeau mwyaf cyffrous a chofiadwy y West End.

Canlyniadau gemau Hoci Rownd top schools o dan 16

Gêm derfynol ardal Sir Caerfyrddin
BM 0 - Bro Dinefwr 6

Gem cynghair
Bl.10 - BM 2 yn erbyn Dyffryn Taf 0
Tim 1af. - BM 0 yn erbyn Dyffryn Taf 2

Canlyniadau Rygbi Dydd Iau Chwefror 11eg
YBM BL 8 yn ennill 42 - 0 yn erbyn Bro Dinefwr
YBM Bl 9 yn ennill 22 - 7 yn erbyn Bro Dinefwr

Diwrnod gwisg ffansi Disney



Cafwyd lluo o gymeriadau Disney yn llifo trwy goridau Bro Myrddin ar Ddydd Gwener y 29 o Ionawr gan godi arian at ddwy elusen sef 'Make a Wish Foundation' a chronfa Achub y Plant. Codwyd cyfanswm o £730 ar y dydd. Diolch i bawb am eu cyfraniad.



CogURDD 2016

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae disgyblion yn yr adran Arlwyyo wedi bod yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth coginio'r URDD. Y dasg eleni ar gyfer blwyddyn 7 i 9 oedd creu 'flatbreads' gyda hwmws cartref a salsa mango a chacennau bach moron. Ar gyfer y gystadleuaeth B10 – 19 oed roedd rhaid paratoi, coginio a gweini un saig o'i dewis mewn 1½awr.



Enillydd y gystadleuaeth Blwyddyn 7-9 oedd Millie Hughes Butterfield o ddosbarth 9-3 ac yn ail agos roedd Lowri Powell o 8-1. Llongyfarchiadau i enillydd y gystadleuaeth Blwyddyn 10 – 19 oed sef Ffion Mason ac yn ail yn y gystadleuaeth roedd Cara James, y ddwy o flwyddyn 12. Llongyfarchiadau mawr i bob disgybl a fu'n rhan o'r gystadleuaeth a phob lwc i'r disgyblion uchod wrth fynd ymlaen i gystadlu yn Fflint.